# Asesu’r risg sy’n cael ei pheri gan gyflawnwyr cam-drin domestig neu drais rhywiol

## Trosolwg

Mae’r safon hon yn ymwneud ag asesu’r risg aildroseddu sy’n cael ei pheri gan gyflawnwyr cam-drin domestig neu drais rhywiol.

Fel rhan o’r safon hon, bydd gofyn i chi gynnwys cyflawnwyr, lle y bo’n bosibl, mewn asesiadau risg ac wrth gytuno ar ffactorau canlyniadol y mae angen mynd i’r afael â nhw.

Trwy gydol y safon hon, lle bynnag y defnyddir y term ‘cam-drin’, cymerir ei fod yn cynnwys achosion sydd hefyd yn cynnwys trais corfforol.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cael gwybodaeth berthnasol am gyflawnwyr sy’n gysylltiedig ag asesiadau risg, gan gynnwys:
• eu hamgylchiadau
• eu hymddygiad
• data ffeithiol, lle y bo’n bosibl
• data clinigol, lle y bo’n bosibl
2. disgrifio eich rôl a’ch cyfrifoldebau i gyflawnwyr, yn unol â gofynion eich sefydliad
3. esbonio wrth gyflawnwyr pa wybodaeth rydych chi’n ei cheisio, gan gynnwys y rhesymau dros ei cheisio
4. cael cydsyniad cyflawnwyr i geisio gwybodaeth amdanynt, fel y bo gofyn, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau’r sefydliad
5. gweithio gyda chyflawnwyr i archwilio a phennu:
• a ydynt yn cydnabod bod camdriniaeth wedi digwydd
• eu hamgyffrediad o’u sefyllfa a’u hymddygiad
• eu hamgyffrediad o effaith camdriniaeth ar unigolion
• eu rhesymu dros y gamdriniaeth a gyflawnwyd
6. cael gwiriad a chadarnhau gwybodaeth pan fo angen, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau eich sefydliad
7. cyfathrebu â chyflawnwyr mewn ffyrdd sy’n bodloni eu hanghenion
8. defnyddio offer asesu priodol sy’n berthnasol i’ch sefydliad er mwyn nodi ac asesu ffactorau i gyflawnwyr, gan gynnwys:
• addysg
• sefyllfa o ran cyflogaeth
• iechyd corfforol ac iechyd meddwl
• eu hagweddau, eu credoau a’u symbyliad
9. asesu’r dystiolaeth sydd ar gael i bennu’r risg y bydd cyflawnwyr yn parhau i gam-drin pobl eraill, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau’r sefydliad
10. nodi ffactorau risg sy’n effeithio ar gyflawnwyr, yn unol ag offer a chanllawiau asesu risg y sefydliad
11. pennu’r ffactorau risg sy’n debygol o ddylanwadu ar gamdriniaeth pobl eraill gan gyflawnwyr, gan gynnwys:
• sbardunau camdriniaeth
• dylanwadau a all leihau neu atal cam-drin pobl eraill

- materion a all atal cyflawnwyr rhag mynd i’r afael â’u hymddygiad

12. gweithio gyda chyflawnwyr i gwblhau asesiadau risg ac:
- esbonio polisïau a gweithdrefnau asesu risg eich sefydliad
- rhoi rhesymeg dros ddeilliannau asesiad risg
- esbonio effaith risgiau
- esbonio dylanwadau amddiffynnol a nodir
- esbonio sbardunau posibl eu hymddygiad camdriniol
- esbonio camau a allai fynd i’r afael â sbardunau posibl

13. gweithio gyda chyflawnwyr i nodi a chytuno ar
- feysydd risg posibl i’w targedu
- dylanwadau i’w cryfhau
- camau gweithredu priodol i gryfhau dylanwadau

14. cynnwys unigolion mewn asesiadau risg cyflawnwyr, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau’r sefydliad
15. nodi unrhyw ymyriadau y gellid mynd ar eu trywydd yn erbyn cyflawnwyr ac sy’n amddiffyn unigolion, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau’r sefydliad
16. gwneud asesiadau risg teg ar sail tystiolaeth, gwybodaeth a gafwyd a chanfyddiadau cysylltiedig
17. trefnu asesiadau ychwanegol i gyflawnwyr pan fydd angen i asesu ymhellach y risg y byddant yn achosi niwed a chamdriniaeth
18. nodi a yw cyflawnwyr yn addas i fynychu rhaglen driniaeth a chael y cydsyniad angenrheidiol yn unol â meini prawf a chanllawiau sydd ar gael
19. trefnu bod cyflawnwyr yn mynychu rhaglenni triniaeth sy’n lleihau eu risg niwed a chamdriniaeth bellach
20. monitro ac adolygu’r cyflawnwyr a aseswyd
21. rhybuddio pobl eraill pan fyddwch yn nodi pryderon am risg niwed gan gyflawnwyr i’w hunain neu i bobl eraill
22. esbonio cynnwys adroddiadau wrth gyflawnwyr, a phwy all gael at yr adroddiadau hyn, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau’r sefydliad
23. darparu adroddiadau a gwybodaeth i bobl berthnasol eraill, fel y bo’n briodol, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau’r sefydliad
24. cynnal cofnodion cyfredol yn unol â pholisïau a gweithdrefnau’r sefydliad

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. gofynion cyfreithiol, sefydliadol a pholisi sy'n berthnasol i'ch rôl chi, i rôl pobl eraill yn eich sefydliad ac i'r gweithgareddau sy'n cael eu cyflawni.
2. y canllawiau, y polisïau a'r gweithdrefnau lleol a chenedlaethol perthnasol sydd ar gael a sut a phryd y dylid troi atynt gan gynnwys
3. rolau, amcanion, cylch gwaith a gwasanaethau eich sefydliad ar gyfer mynd i'r afael â cham-drin domestig neu drais rhywiol
4. yr ystod o asiantaethau a gwasanaethau y gallech weithio gyda nhw
5. cyfyngiadau eich awdurdod, eich cyfrifoldeb a'ch cymhwysedd proffesiynol
6. beth yw cam-drin domestig neu drais rhywiol, a pha mor gyffredin ydyw yn eich cymuned leol
7. arwyddion o gam-drin a'r dulliau y mae camdrinwyr yn eu defnyddio i ennill grym a rheolaeth
8. gwahanol ymatebion i drawma a'u heffaith
9. sut gall dibynyddion gael eu defnyddio gan gamdrinwyr fel rhan o'u camdriniaeth
10. mathau o wybodaeth a chymorth y mae pobl sydd wedi'u heffeithio gan gam-drin domestig neu drais rhywiol yn eu ceisio, a'u ffynonellau
11. sut mae agweddau'n gysylltiedig â diwylliant, cymdeithas a rhywedd yn effeithio ar gam-drin domestig neu drais rhywiol
12. sut mae croestoriadedd yn effeithio ar brofiad unigolyn o wasanaethau
13. rôl asiantaethau cymorth allanol o ran rhoi cymorth i unigolion yn eich ardal
14. trefniadau amlasiantaethol ar gyfer darparu cymorth ac ymyriadau i unigolion yn eich ardal
15. prosesau asesu risg perthnasol a sut i ymgymryd â'r rhain
16. cyfyngiadau prosesau asesu risg a'u dibyniaeth ar y wybodaeth sydd ar gael
17. gwybodaeth sy'n angenrheidiol i asesu risg cyflawnwyr wrth fynd i'r afael â'u risg aildroseddu
18. pwysigrwydd nodi p'un a oes gan y cyflawnydd broblemau eraill sy'n cyfrannu at ei ymddygiad camdriniol
19. pwysigrwydd mynd i'r afael â phroblemau'r cyflawnydd fel rhan o broses herio'i ymddygiad
20. gwahanol ymatebion i drawma a'u heffaith
21. ffynonellau gwybodaeth am y cyflawnwyr rydych chi'n gweithio gyda nhw a sut i gael at y rhain

22. dulliau o wirio a chadarnhau gwybodaeth sy’n dod i law
23. sut i wahaniaethu rhwng tystiolaeth a welwyd yn uniongyrchol, tystiolaeth o ffynonellau dibynadwy ac adroddiadau ail-law
24. ffactorau risg allweddol ar gyfer troseddu difrifol, gan gynnwys
• nifer yr euogfarnau blaenorol
• natur y cam-drin presennol
• patrymau ymddygiad camdriniol
• camddefnyddio cyffuriau ac alcohol
25. amgylchiadau sy’n mynnu asesiadau ychwanegol a sut i drefnu’r rhain
26. amgylchiadau pan ystyrir bod y cyflawnwyr yn bobl uchel eu risg
27. amgylchiadau sy’n mynnu atgyfeirio i asiantaethau eraill a sut i symud hyn yn ei flaen
28. yr ystod o arddulliau a thechnegau cyfathrebu sydd ar gael a phryd a sut i’w haddasu
29. sut mae gwahanol ddiwylliannau yn defnyddio ac yn dehongli iaith y corff mewn ffyrdd gwahanol
30. rhwystrau cyffredin rhag cyfathrebu a ffyrdd o’u goresgyn
31. pwysigrwydd bod yn ymwybodol o’ch gwerthoedd a’ch credoau eich hun a’r effaith y gall eich gwerthoedd a’ch credoau eich hun ei chael wrth weithio gyda chyflawnwyr ac unigolion
32. sut i herio agweddau ac ymddygiad gwahaniaethol neu a allai fod yn niweidiol, a phwysigrwydd gwneud hynny
33. polisïau a gweithdrefnau’r sefydliad ar gyfer rhannu gwybodaeth
34. yr amgylchiadau pan fydd angen rhoi gwybod i eraill am gyflawnwyr, gan gynnwys pan fydd gennych bryderon am ddiogelwch pobl eraill oherwydd ymddygiad y cyflawnydd
35.

## Geirfa

**Cam-drin Domestig**
Unrhyw ymddygiad neu batrwm o ymddygiad rheolaethol, ymddygiad gorfodaethol, ymddygiad bygythiol, trais neu gamdriniaeth rhwng pobl sy'n 16 oed neu'n hŷn sydd, neu a fu, yn bartneriaid clos neu'n aelodau teulu, ni waeth beth yw eu rhywedd neu eu rhywioldeb. Gall y cam-drin gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, gyfuniad o gam-drin seicolegol, corfforol, rhywiol, ariannol ac emosiynol.

Mae'r diffiniad hwn hefyd yn cynnwys trais ar sail 'anrhydedd' fel y'i gelwir, anffurfio organau cenhedlu benywod a phriodas dan orfod. Mae plant hefyd yn cael profiad o gam-drin domestig pan fyddant yn dyst i gam-drin domestig.

**Croestoriadedd**
Natur gysylltiedig categoreiddiadau cymdeithasol fel hil, dosbarth a rhywedd, yr ystyrir eu bod yn creu systemau gwahaniaethu neu anfantais sy'n gorgyffwrdd ac sy'n gyd-ddibynnol

**Dull dan arweiniad anghenion**
Ffordd o weithio i sicrhau bod y cymorth sy'n cael ei gynnig i rywun sy'n cael profiad o gam-drin domestig yn cael ei gynnig ar sail eu hanghenion a'i fod yn adeiladu ar eu cryfderau a'r adnoddau sydd ar gael iddynt. Mae'n cydnabod y wybodaeth sydd ganddynt am yr unigolyn sy'n defnyddio camdriniaeth. Gyda'r hawliau, gall y sawl nad yw'n cam-drin feithrin ei annibyniaeth, dod dros y trawma a gafodd a chael ei fywyd yn ôl, a dod o hyd i newid sy'n para.

**Pobl mewn perygl**
Unigolyn y diffinnir bod arno angen gofal, cymorth neu amddiffyniad arbennig oherwydd oedran, anabledd, risg cam-drin neu esgeulustod

**Cam-drin Rhywiol**
Ymddygiad rhywiol digroeso gan un person tuag at berson arall. Mae hwn yn aml yn cael ei gyflawni trwy rym neu trwy gymryd mantais ar y person arall. Defnyddir y term hwn yn gyffredinol pan fydd yr ymddygiad rhywiol yn rheolaidd neu'n digwydd dros gyfnod estynedig.

**Ymosodiad Rhywiol**
Unrhyw ymddygiad rhywiol digroeso nad yw person wedi cydsynio iddo. Gall hyn amrywio o drais i voyeuriaeth i orchestu, i gyffwrdd digroeso dros neu o dan ddillad.

**Trais Rhywiol**

Yn debyg o ran ei natur i gam-drin rhywiol, ond defnyddir y term hwn yn fwy aml i ddisgrifio digwyddiadau byr neu unigol, megis ymosodiad rhywiol gan ddieithryn.

**Dull seiliedig ar gryfderau**

Dyma ddull gweithio gydag unigolion sy'n cydnabod eu cryfder i oresgyn eu profiadau

**Ystyriol o Drawma**

Ymagwedd at ymyriadau iechyd a gofal sydd â'i sail mewn deall bod amlygiad i drawma'n gallu effeithio ar unigolyn. Bydd ymarferwyr yn gweithio mewn ffyrdd nad ydynt yn ailachosi trawma yn anfwriadol i'r unigolyn, ac mae pwyslais ar ddiogelwch, dewis, cydweithrediad a grymuso'r cleient.

SFJEF101

Asesu'r risg sy'n cael ei pheri gan gyflawnwyr cam-drin domestig neu drais rhywiol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Justice |
| **Fersiwn rhif** | 3 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 26 Mai 2023 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 28 Mai 2028 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Justice |
| **RCU gwreiddiol** | SFJEF101 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gweithiwr Lloches, Gweithiwr Argyfwng, Cynghorydd Annibynnol Trais Domestig (IDVA) |
| **Cyfres/Set** | Atal a mynd i'r afael â cham-drin domestig a thrais rhywiol |
| **Geiriau Allweddol** | Rhywiol; cyflawnydd; cam-drin domestig; unigolyn; asesu; risg; niwed; asesiad |